**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cadeirydd Pwyllgor yr Economy, Masnach a Materion Gwledig
SeneddEconomy@senedd.wales

11 Chwefror 2022

Annwyl Paul

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Chwefror ac am adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Cymwysterau Proffesiynol.

Unwaith eto, rwy'n diolch i'r Pwyllgor am eu sylwadau gwerthfawr. Rwy'n falch o ddarparu'r wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani yn Atodiad A.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a holl Aelodau'r Senedd.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad A**

1. *Sut mae Llywodraeth y DU wedi gwneud ei safbwynt yn glir mewn perthynas â chymal 16(5) o'r Bil (Paragraffau 25-26 o adroddiad y Pwyllgor), ac y dylid darparu copïau o unrhyw ohebiaeth mewn perthynas â'r pwynt hwn;*

Ym mharagraff 6 o'm llythyr dyddiedig 10 Medi 2021 at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, nodais esboniad Llywodraeth y DU o gymal 14(5) (16(5) erbyn hyn).

Roeddem yn pryderu bod Llywodraeth y DU wedi rhagdybio y dylai Biliau'r DU sy'n rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru gael eu drafftio bob amser mewn ffordd sy'n sicrhau bod cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru yn cyd-fynd.

Ar 29 Medi ysgrifennodd Llywodraeth y DU i gadarnhau eu safbwynt bod achosion lle nad yw cymhwysedd gweithredol a deddfwriaethol yn cyd-fynd.

Er fy mod yn fodlon â'r canlyniad hwn, fy mhryder yn gyffredinol yw bod y pwerau cydredol yn y Bil yn methu â pharchu'r setliad datganoli, a'u bod yn annerbyniol.

Rydw i wedi atodi copïau o'r ohebiaeth berthnasol yn ôl y gofyn.

2. *Diweddariad pellach gan y Gweinidog ynghylch y pryderon polisi fel y'u nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol ac yn llythyr y Gweinidog dyddiedig 4 Hydref.*

Mae Llywodraeth y DU bellach wedi cyhoeddi rhestr o broffesiynau a reoleiddir gan y gyfraith yn y DU a'u rheoleiddwyr. Er bod hyn wedi helpu i egluro'r cwmpas, er enghraifft mae'n cadarnhau ein haeriad bod athrawon Addysg Bellach yng Nghymru o fewn cwmpas y Bil, mae hefyd yn dangos nifer y proffesiynau a'r rheoleiddwyr sy'n dod o fewn cymhwysedd datganoledig ac sydd mewn perygl o weld eu safonau proffesiynol yn cael eu tanseilio os bydd Llywodraeth y DU yn defnyddio'r pwerau cydredol yn y Bil.

Er bod Llywodraeth y DU wedi ein sicrhau na fyddant yn gwneud hyn, ac wedi ceisio tawelu rheoleiddwyr drwy ychwanegu cymalau ychwanegol at y Bil i ddiogelu ymreolaeth rheoleiddwyr, y gwir amdani yw nad oes dim yn y Bil sy'n atal Llywodraeth y DU rhag gwneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig sy'n groes i nodau polisi rheoleiddwyr Cymru neu Weinidogion Cymru.

Rydym yn dal i bryderu y gellid defnyddio'r Bil hwn i hwyluso cytundebau masnach a allai yn y dyfodol danseilio rôl rheoleiddwyr gweithluoedd oherwydd yr awydd i sicrhau cytundebau masnach.